**Cael eich talu am wneud i bobl chwerthin!**

Ydych chi'n gallu gwneud i bobl chwerthin? Os felly, ydych chi'n ffansïo gweithio fel clown? Mae llawer o bobl yn gweithio fel clowniaid, yn diddanu plant mewn partïon pen-blwydd neu mewn wardiau ysbyty neu mewn perfformiadau theatr.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn glown, mae'n werth i chi ystyried pa fath o glown hoffech chi fod – un ar gyfer plant neu un ar gyfer oedolion. Mae rhai pobl yn mwynhau gweithio gyda phlant, mae'n well gan bobl eraill weithio gydag oedolion.

Beth am sgiliau? Ydych chi eisiau jyglo, llyncu tân, reidio beic un-olwyn neu wneud triciau acrobatig? Un peth sy'n sicr - rhaid i chi ddysgu'r 'grefft' o fod yn glown. Gallwch chi gael hyfforddiant neu ddysgu am sgiliau pwysig ar eich pen eich hun drwy ddarllen llyfrau neu drwy ddilyn cwrs ar y we. Mae mynd i weithdy neu gynhadledd yn werthfawr achos gallwch chi ddysgu oddi wrth bobl eraill - a chwerthin am ben eich gilydd!

Rhaid i chi gael gwisg clown, wrth gwrs. Gallwch chi brynu dillad clown neu gallwch chi wneud eich dillad eich hun – dillad lliwgar, mawr, wrth gwrs.

Prynwch golur da – peidiwch â phrynu colur rhad neu bydd yn toddi ac yn rhedeg i lawr eich gwddw oherwydd mae perfformio'n fusnes poeth iawn! Yna, penderfynwch ar batrwm y colur ar eich wyneb. Peidiwch â chopïo wyneb clown arall oherwydd ers 1946, mae patrwm wyneb pob clown ym Mhrydain wedi cael ei gofrestru ar blisgyn wy neu ar wy porslen ac mae pob patrwm, felly, yn unigryw. Os nad ydych chi'n un da am dynnu lluniau, defnyddiwch stensil i wneud y patrwm ar eich wyneb. A chofiwch y trwyn mawr coch!

Dysgwch sut i beintio wynebau. Prynwch stensiliau o sêr, cylchoedd, sgwariau neu flodau os ydych chi eisiau. Cofiwch ddefnyddio paent proffesiynol oherwydd mae croen plant yn gallu bod yn sensitif.

Cofiwch ddysgu triciau – darllenwch lyfrau neu edrychwch ar DVDs neu ar y rhyngrwyd. Does dim rhaid i'r triciau fod yn rhai cymhleth ond gwnewch yn siŵr eu bod yn addas ar gyfer eich cynulleidfa. Prynwch driciau cyffredinol sy'n gwneud i bobl chwerthin, er enghraifft cardiau, hetiau neu wrthrychau sy'n 'diflannu'.

Dysgwch sut i blygu balŵns i wahanol siapiau – bydd plant (ac oedolion!) wrth eu bodd gyda chŵn neu hetiau wedi'u gwneud allan o falŵn. Gallwch chi eu rhoi nhw'n anrhegion i bobl yn y gynulleidfa. Byddan nhw wrth eu bodd!

Ar ôl dysgu'r grefft ac ymarfer, byddwch chi'n barod i wynebu cynulleidfa, ond cofiwch fod angen i chi hysbysebu a marchnata. Prynwch gardiau busnes (neu gwnewch rai ar y cyfrifiadur gartref), rhowch hysbysebion mewn gwahanol leoedd  e.e. canolfannau plant neu ganolfannau hamdden, a chofrestrwch eich hun fel clown a rhoi'r manylion ar y we.

Bydd yn rhaid i chi gael tystysgrif sy'n profi bod yr heddlu wedi gwirio'ch cefndir chi ac nad ydych chi wedi cyflawni unrhyw droseddau. Hefyd, rhaid i chi gadw cofnod o'ch enillion oherwydd bydd rhaid i chi dalu trethi maes o law.

Byddwch yn broffesiynol a byddwch yn dda yn eich gwaith ac, yn bennaf oll, gwenwch a mwynhewch!